# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gwasanaethau Cymorth Carennydd**

**Gwasanaethau Gofal Aman**
**Yr Hen Lyfrgell**
**Stryd Fawr Glanaman**
**Rhydaman**
**SA18 1DX**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/01/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Gwasanaethau Cymorth Carennydd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Amman Care Services Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 14 Gorffennaf 2022 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb


Mae Carennydd yn darparu cymorth i unigolion yn eu cartrefi eu hunain, gan gynnwys lleoliadau byw â chymorth lle gellir darparu cymorth bob awr o'r dydd a'r nos. Caiff gofal ei ddarparu gan staff parchus ac ystyriol. Dywedodd y bobl a'u teuluoedd y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus iawn â'r cymorth a gânt a bod ganddynt gydberthnasau cadarnhaol a llawn ymddiriedaeth â'r staff.

Gall y bobl deimlo'n hyderus bod cynlluniau personol yn gywir ac yn fanwl iawn a'u bod yn rhoi arweiniad i'r staff ynghylch sut y darperir gofal a chymorth. Mae pwyslais cryf ar alluogi a sicrhau bod y bobl yn cyflawni eu llawn botensial. Mae'r cymorth a ddarperir yn canolbwyntio ar rymuso ac adeiladu ar gryfderau i gyflawni canlyniadau personol. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn rhan o'r broses o greu ac adolygu cynlluniau personol ac mae eu dymuniadau a'u teimladau o'r pwys mwyaf.

Mae'r tîm rheoli yn gefnogol ac ysbrydoledig iawn ac mae trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i fonitro'r gofal a'r cymorth a ddarperir. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ystyried barn y bobl, eu cynrychiolwyr, y staff a'r holl randdeiliaid, ac yn ymgysylltu â nhw fel rhan o'r broses o adolygu Ansawdd y Gofal.

## Llesiant

Mae'r unigolion yn cael dewis ac maent yn cyfrannu at eu cynlluniau o ddydd i ddydd a'u nodau tymor hwy. Caiff y bobl eu hannog i leisio eu teimladau a'u dymuniadau. Caiff y rhai sydd ag anawsterau cyfathrebu eu cefnogi i fynegi eu dymuniadau mewn ffyrdd amrywiol, megis drwy ddefnyddio technoleg, lluniau a ffotograffau. Roedd unigolyn y gwnaethom siarad ag ef yn llawn brwdfrydedd wrth sôn am ei gynlluniau dros y misoedd nesaf a'i ddyheadau ar gyfer y dyfodol. Soniodd aelod o'r staff am y ffordd y mae'n cyfathrebu ag unigolion na allant gyfleu eu dymuniadau a'u teimladau ar lafar.

Mae'r gwasanaeth yn darparu'r "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg ac mae sawl aelod o'r staff yn siarad Cymraeg. Mae staff nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg wedi dysgu ymadroddion sy'n berthnasol i'r bobl y maent yn eu cefnogi. Gwelsom fod cofnod o ddewis iaith y bobl yn eu dogfennaeth gofal. Dywedwyd wrthym y gallai dogfennaeth gofal a llenyddiaeth y gwasanaeth gael eu darparu yn Gymraeg ar gais.

Mae dewisiadau personol wedi'u dogfennu'n glir mewn cynlluniau personol hynod fanwl, sy'n dangos bod y bobl a'u cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn llawn. Caiff y bobl eu parchu fel unigolion a chânt eu galluogi i fod mor annibynnol â phosibl. Caiff cryfderau a nodweddion personol eu cydnabod a chaiff y bobl eu cefnogi i gyflawni eu llawn botensial. Dywedodd cynrychiolydd wrthym, "*He has got a lot better with things (daily living skills) since being there. I let him decide when he's with me…he can be very responsible".*

Cydnabyddir pa mor werthfawr yw cynnal cydberthnasau â theulu a ffrindiau sy'n bwysig i'r bobl a chânt eu cefnogi i gael ymweliadau gan deulu ac i'r gwrthwyneb. Mae'r cynrychiolwyr yn rhan fawr o fywydau'r bobl ac maent wedi meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â'r staff. Dywedodd un perthynas wrthym, "*They have helped me in all sorts of ways. They're always involving me in things. I never worry about her; I would know if she wasn't happy".*

Mae'r gwasanaeth yn cadw'r bobl yn ddiogel ac yn eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Mae'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau pe bai ganddynt unrhyw bryderon ac maent yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau i'w dilyn. Maent yn hyderus y byddai'r rheolwyr yn cymryd y camau angenrheidiol pe bai angen ac yn unol â dyletswyddau statudol.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael a gwnaethant ddweud bod y gwasanaeth yn '*amazing*' ac yn '*brilliant'* a bod y staff yn mynd '*above and beyond'*. Mae cynlluniau personol yn fanwl iawn ac yn rhoi arweiniad clir i'r staff gofal ynglŷn â sut i ddarparu gofal a chymorth. Caiff atgyfeiriadau eu gwneud at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol pan fo angen a chaiff y bobl eu cefnogi i fynychu apwyntiadau.

Cynhelir clinig gofal iechyd bob mis yn y ganolfan ddydd wrth ymyl y lleoliad. Mae meddyg teulu o'r practis lleol yn ymweld â'r ganolfan ac yn cynnal gwiriadau iechyd rheolaidd. Mae hwn wedi bod yn brofiad cadarnhaol i unigolion sy'n cael eu llethu gan ymweliadau â'u practis meddyg teulu. Mae'r meddyg teulu wedi llwyddo i gynnal gwiriadau iechyd ar unigolion sydd wedi gwrthod yn y gorffennol; ac mae hyn yn hybu eu hiechyd a'u llesiant. Mae hefyd yn galluogi'r meddyg teulu i ddod i adnabod yr unigolion a'u cyflyrau iechyd, gan wella eu cydberthnasau a darparu lefel uwch o ofal.

Caiff cynrychiolwyr y bobl eu gwahodd i fod yn rhan o asesiadau ac adolygiadau a chânt y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau o ran anghenion gofal a chymorth. Mae'r adolygiadau a welsom yn ystod yr arolygiad yn dangos bod y bobl, eu cynrychiolwyr a gweithwyr proffesiynol yn chwarae rôl weithredol. Yn ystod adolygiadau, caiff y bobl eu cefnogi i fynegi eu teimladau mewn ffyrdd gwahanol. Caiff llyfrau lloffion a ffotograffau o weithgareddau y mae pobl wedi'u gwneud eu defnyddio gyda'r unigolion i sbarduno eu hatgofion ac annog trafodaeth. Mae hyn yn helpu'r staff i wybod beth mae'r bobl wedi mwynhau ei wneud a beth y maent am ei wneud neu nad ydynt am ei wneud. Defnyddir amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu ar gyfer unigolion na allant gyfathrebu ar lafar.

Mae protocolau ac asesiadau risg sefydledig yn sicrhau bod y bobl yn cael eu hamddiffyn a'u cadw mor ddiogel â phosibl ond gan beidio â chyfyngu ar eu rhyddid yn ddiangen. Mae'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn dangos bod unrhyw benderfyniadau a wnaed ar ran unigolyn wedi cael eu hystyried yn ofalus, yn gyfreithlon ac er lles pennaf yr unigolyn.

Caiff y bobl eu hannog i arfer eu hawliau ac eirioli drostynt eu hunain. Mae'r unigolion wedi cael eu cefnogi i sefydlu pwyllgor arloesol i gynrychioli eu barn o ran gyda beth yr hoffent gael cymorth a sut. Yn ogystal â diddordebau, dathliadau a gwyliau, mae gweithgareddau mwy cyfannol yn cael eu hystyried er mwyn hybu llesiant y bobl a datblygu eu llawn botensial. Er enghraifft, trefnu digwyddiadau gwirfoddoli/codi arian i elusen sydd wedi cefnogi ac sy'n parhau i gefnogi unigolyn a threfnu sesiynau ymwybyddiaeth ar bynciau fel bwyta'n iach. Mae'r rheolwr hefyd yn datblygu addysg ac ymwybyddiaeth o ran sut y gall pobl barchu gwahaniaethau ei gilydd drwy ystyried yr iaith y maent yn ei defnyddio.

Dywedodd un cynrychiolydd wrthym, “*They have glowing, really fulfilled lives, they are living a life they deserve”.*

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r staff a'r unigolion yn cael budd o dîm rheoli cryf a chreadigol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol ac mae'r adroddiad chwemisol diweddar yn dangos bod trefniadau ar waith i asesu, monitro ac adolygu ansawdd y gofal a ddarperir. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac mae adroddiadau chwarterol yn dangos ei fod yn ymgysylltu â'r bobl. Gofynnir am farn y bobl ac mae'n rhan o’r broses sicrhau ansawdd. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae'r tîm rheoli yn greadigol iawn ac yn ymdrechu i gyflawni'r canlyniadau gorau i'r unigolion. Mae wedi datblygu syniadau arloesol i ysbrydoli'r bobl i gyflawni eu llawn botensial yn unol â'r Datganiad o Ddiben. Mae'r rheolwyr yn frwd dros gyflawni eu hethos, sef cefnogi unigolion i*“live a life that is unique, satisfying, fulfilling, stimulating and interesting so that emotional, mental health and well-being are optimised”.* Dywedodd un cynrychiolydd, “*They (staff) go above and beyond. Their (individuals) lives are so enriched. They (staff) are genuine, they go on their own values…I wish it could be bottled and shared with other (non profit) organisations”.*

Mae systemau recriwtio cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod gan y staff y sgiliau, y wybodaeth a'r cymeriad addas i ymgymryd â'u rôl. Mae'r cofnodion personél yn dangos y caiff yr holl wiriadau angenrheidiol eu cwblhau cyn cynnig contract cyflogaeth. Mae'r gwiriadau hyn yn cynnwys geirdaon gan gyflogwyr blaenorol, gwiriadau hanes gwaith llawn a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Mae'r staff yn cwblhau cyfnod sefydlu trylwyr a hyfforddiant parhaus. Mae'r cofnodion yn dangos bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf a'u bod yn cwblhau hyfforddiant ychwanegol yn unol ag anghenion gofal y bobl y maent yn eu cefnogi, er enghraifft, hyfforddiant ar epilepsi. Caiff sesiynau goruchwylio un i un eu cynnal yn rheolaidd er mwyn rhoi cyfle i'r staff drafod eu cryfderau a nodi unrhyw feysydd i'w datblygu neu lle mae angen hyfforddiant arnynt. Dywed y staff fod y rheolwr yn “*supportive*” ac yn “*very easy to talk to”.*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/04/2024